# CYNGOR CYMUNED PISTYLL
# COFNODION CYFARFOD MISOL

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fawrth – 14eg o Fawrth, 2023** |
| **AMSER** | **7 y.h.** |
| **LLEOLIAD** | **Tabor, Llithfaen** |
| **CADEIRYDD** | **Sianelen Pleming** |

| | |
|---|---|
| **1.** | **CROESO** |
| | Croesawodd y Cadeirydd Sianelen Pleming **(SP)** bawb i'r cyfarfod. Diolchodd i LJ am baratoi ystafell yn Nhabor i bwrpas cynnal y cyfarfod.<br><br>**YN BRESENNOL HENO ROEDD:**<br>Sara Williams **(SW);** Gethin Jones **(GJ)**; Lisbeth James **(LJ)**; Lois Fychan **(LF)**; Griffith John Leslie Jones **(GJLJ);** Cyng. Jina Gwyrfai **(JG)** a'r clerc Gillian Thomas **(GT).** |
| **2.** | **YMDDIHEURIADAU** |
| | **DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU GAN:**<br>William Jones **(WJ);** Olwen Roberts **(OR);** Ynyr Ellis **(YE);** Emlyn Williams **(EW).** |
| **3.** | **COFNODION CYFARFOD CHWEFROR 2023** |
| | **a)** **CYFLWYNO A MABWYSIADU**<br>Cynigwyd y cofnodion yn gywir gan LJ gyda GJLJ yn eilio a phawb yn cytuno.<br><br>**b)** **MATERION YN CODI**<br><br>i. Cafwyd y Materion canlynol eu hail hadrodd I Briffyrdd Dwyfor ar y 15/02/23:<br><br>**TYLLAU AR Y FFORDD**<br>• Ger Tŷ Alpha Llithfaen<br>• Ger Tŷ mawr, Lôn Groes, Pistyll<br>• Ger Mynydd Heulog<br><br>**DDIFFYGION GYDA THRAENIAU**<br>Traeniau o Dynn Parc i Gors Lwyd Llithfaen angen eu hagor, llawn cerrig.<br><br>**TIPIO ANGHYFREITHLON**<br>Bath wedi cael ei daflu i ffoes ar Lon Isaf sy'n mynd o Lithfaen i Bentre-uchaf.<br>Adroddodd y Clerc bod OR wedi cysylltu yn adrodd bod y bath bellach wedi cael ei godi a'i symud gan Swyddogion y Cyngor Sir ond bod gwydr wedi ei adael ac yn berig, roedd y clerc wedi adrodd am hyn i Briffyrdd Dwyfor.<br><br>**c)** **PARCIO PERYGLUS**<br>Nid oedd ymateb wedi ei dderbyn i ohebiaeth y Cyngor Cymuned yn gofyn i Mr Jones barchu iechyd a diogelwch y trigolion a pharcio mewn safle mwy diogel fis diwethaf.<br>Nid oedd y clerc wedi derbyn gohebiaeth byth. Y clerc i ofyn am argymhellion y Cyngor Sir.<br><br>**d)** **CWYN I GOMISIYNYDD Y GYMRAEG**<br>Roedd JG wedi adrodd am ddiffyg hyfforddiant Cymraeg gan Un Llais Cymru a Chymorth Cynllunio Cymru i'r Comisiynydd, adroddodd am ohebiaeth oedd wedi ei dderbyn yn adrodd: |

Eu bod o'r farn nad oes modd cynnal ymchwiliad statudol i'ch cwyn dan adran 71 Mesur y Gymraeg.

Cysylltodd eu swyddogion â Gweinidogion Cymru i ofyn am fwy o wybodaeth am y mater ac i ofyn a oedden nhw'n gyfrifol am y cyrsiau. Fe esboniodd Gweinidogion Cymru nad nhw oedd yn gyfrifol am y mater ac fe ddarparwyd y sefydliad y wybodaeth ganlynol:

• Nid yw Un Llais Cymru na Chymorth Cynllunio Cymru yn gweithredu ar eu rhan pan maent yn cynnig cyrsiau i gynghorau.

• Mae Gweinidogion Cymru wedi nodi eu bod yn ariannu i ddau sefydliad yn rhannol, a bod y swm yma yn llai na thraean o'i hincwm.

• Fe esboniodd Gweinidogion Cymru eu bod yn ariannu Un Llais Cymru i ddarparu bwrsariaethau hyfforddi h.y. cyllid i gymell hyfforddiant i gynghorau cymuned hynny drwy ddarparu cymorthdaliadau mewn achosion penodol. Mae'r bwrsariaethau hyfforddi hyn wedi'u targedu at: - Cyrsiau'n ymwneud â rheolaeth ariannol a llywodraeth - Hyfforddiant cod ymddygiad - Hyfforddiant cyffredinol i gynghorau bach

• Fe esboniodd Gweinidogion Cymru bod telerau ac amodau'r grant sy'n cefnogi bwrsariaethau yn cynnwys gofyniad: "... Pan fo'r Dibenion yn cynnwys neu'n ymwneud â darparu gwasanaethau yng Nghymru, rhaid eu darparu yn Gymraeg a Saesneg oni bai y byddai'n afresymol neu'n anghymesur i wneud hynny. Rhaid eu darparu yn y fath fodd ag i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011."

• Mae Gweinidogion Cymru yn darparu grant craidd i Gymorth Cynllunio Cymru, fodd bynnag, mae'r digwyddiadau hyfforddi y mae Cymorth Cynllunio Cymru yn eu cynnal ar y cyd gydag Un Llais Cymru y tu hwnt i'r gweithgareddau a gytunwyd arnynt yn y llythyr cynnig grant.

Gan nad yw Unllais Cymru na Chymorth Cynllunio Cymru yn darparu'r hyfforddiant ar ran Gweinidogion Cymru, nid yw'r gŵyn yma yn creu amheuaeth o fethiant i gydymffurfio gyda safonau'r Gymraeg. Dan adran 103 Mesur y Gymraeg, mae gan y Cyngor hawl i wneud cais i Dribiwnlys y Gymraeg i adolygu ei phenderfyniad.

Er nad oes modd iddi ddelio gyda'r mater yma drwy'r broses gwyno, mae wedi gofyn i'w swyddogion i edrych ar statws Unllais Cymru ymhellach a gofyn iddynt ystyried a oes modd cymryd camau mewn dulliau eraill y tu hwnt i'r broses gwynion.

Cynigiodd SP bod y Cyngor yn gwneud cais am ddiweddariad gan y Swyddogion – JG i weithredu
Y clerc i lythyru a Chynghorau Cymuned eraill gan rannu llythyr y comisiynydd yn gofyn am gefnogaeth

**e)** **<u>Y LLAIN TIR TRWY'R PENTREF (CEIR YN PARCIO A'I DROI YN FWD)</u>**
SP cynnig trafod y mater ger bron Cyfarfod y Pentrefwyr 27 Mawrth, 7.30 yn Festri Capel Llithfaen
Trafodwyd posibilrwydd i'w droi yn wyrdd a'i harddu yn hytrach nac ei droi'n yn darmac, bydd y cynnig yn cael ei roi ger bron y pentrefwyr.

**f)** **<u>CYNNIG GAN GETHIN JONES I GEISIO NEWID RHEOLAU TAI TEG</u>**
Roedd JG wedi anfon llythyr gyda'r cynnig gan GJ at bob Cyngor Cymuned yn Nwyfor (ond ddim cynghorau tref) yn esbonio pryderon y Cyngor am drafferthion gaiff pobl ifanc yn lleol i gael caniatâd cynllunio i adeiladu ac aros yn eu cynefin. Gyda chais iddynt drafod y cynnig yn eu cyfarfod nesaf ac anfon e-bost i gefnogi'r cynnig os dyna'r penderfyniad.
Wedi derbyn ymateb gan dri hyd yn hyn, bydd GJ yn adrodd ymhellach fis nesaf.

| | |
|---|---|
| | **g)** **<u>GJ – TWYLL TRETH CYNGOR</u>**<br>Adroddodd y clerc ei bod wedi cyfeirio'r gwyn i Adran Treth y Cyngor ac adran Etholiadau - derbyniwyd gohebiaeth gan yr Adran Etholiadau yn esbonio nad oedd ganddynt unrhyw bwerau i ddelio gyda'r mater.<br>Mae'r mater nawr yn nwylo'r Pennaeth Cyllid. Ni dderbyniwyd gohebiaeth ganddo hyd yn hyn.<br>Clerc i ofyn am ddiweddariad |
| **4.** | **DATGAN DIDDORDEB** |
| | Dim wedi ei ddatgan |
| **5.** | **ASEDAU'R CYNGOR** |
| | Popeth mewn cyflwr da. |
| **6.** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** |
| | Dim i'w drafod ar y noson |
| **7.** | **TENDRO TORRI GWAIR MYNWENT PISTYLL** |
| | Derbyniwyd dyfynbris gan Danny's Gardening Services a Rhys Jones.<br>Cynigiodd GJ ac eiliodd GJLJ dderbyn dyfynbris Dannys's Gardening services. Y clerc i'w hysbysebu a gofyn iddo baratoi am y toriad cyntaf yn fuan. |
| **8.** | **CYFYNGIADAU PARCIO ARFAETHEDIG SIOP Y GROES** |
| | Adroddodd y clerc bod siawns i'r trigolion ymateb i'r llythyr gan y Cyngor Sir yn adrodd bwriad i leoli Cyfyngiadau Parcio hyd at y 29ain o Fawrth 2023<br><br>Ni ddebryniwyd unrhyw sylwadau |
| **9.** | **Y GANOLFAN** |
| | Adroddodd SP bod cynllun buses wedi ei ddarparu a bod holiadur ar Survey Monkey ac yn y Siop ar gyfer y trigolion. |
| **10.** | **PWYNTIAU GWEFRU I GERBYDAU TRYDAN** |
| | Adroddodd y clerc ei bod wedi derbyn gohebiaeth gan Reolwr Gwasanaeth Parcio a Gwaith Stryd, Cyngor Gwynedd yn adrodd bod Llywodraeth Cymru yn awyddus i gryfhau'r rhwydwaith a chynyddu nifer o bwyntiau gwefru drwy'r Wlad.<br>Bydd posib derbyn cyfraniad ariannol (hyd at 60% o'r costau) gan y Llywodraeth ar gyfer cynyddu'r nifer o bwyntiau gwefru a osodir ledled y Wlad.<br>Gofynnodd a fydd hyn o ddiddordeb ar gyfer y Ganolfan yn Llithfaen.<br>Cytunodd yr aelodau nid oedd diddordeb yn bresennol. |

| | |
|---|---|
| **11.** | **MAES PARCIO, NANT** |
| | Derbyniwyd gohebiaeth gan Gyfreithiwr ar ran y Gofrestrfa Tir ynghyd a chynllun a chopi o Drosglwyddiad dyddiedig 2 Chwefror 1938. Esboniodd nad yw'r Gofrestrfa Tir yn fodlon i gofrestru'r Cygnor fel perchnogion rhan o'r tiroedd oedd wedi ei lliwio ar y cynllun.<br><br>Yn dilyn trafodaeth cytunwyd wneud ymholiad am ran o dir ychwanegol. Y clerc i weithredu |
| **12.** | **CEISIADAU AM NAWDD** |
| | Derbyniwyd ceisiadau ychwanegol i'w penderfynu gan:<br><br><u>Côr Cantorion Llyn</u> – Ni dderbyniwyd cynnig i'w cefnogi eleni<br><u>Côr Meibion Carnguwch</u>- Cynigiodd LJ eu cefnogi, eiliodd GJLJ a chytunodd pawb swm o £150.00<br><u>Gŵyl Ifan</u> - Cynigiodd GJLJ eu cefnogi, eiliodd GJ a chytunodd pawb swm o £700.00<br><u>Yswiriant Cae Chwarae</u> - Cynigiodd GJ eu cefnogi, eiliodd LF a chytunodd pawb swm o £850.00 |
| **13.** | **MATERION LLEOL** |
| | **a) <u>CARREG FILLTIR GWERINDU LLITHFAEN</u>**<br>Adroddodd GJLJ bod y tŷ bellach wedi ei werthu ar wefan Saesneg am bris rhad, gofynnodd yr aelodau iddo gadw llygaid ar y garreg filltir.<br><br>**b) <u>GJ – DIFFIBLWR AR GYFER PISTYLL</u>**<br>Roedd GJ wedi trafod a chymydog oedd yn hapus mewn egwyddor i leoli unrhyw ddiffiblwr ar ei du. Gofynnodd a bydd y Cyngor yn cytuno i dalu am y trydan.<br>Cytunodd yr aelodau ni fydd lleoli ar dy annedd yn ddewis doeth. Cytunwyd i ofyn am argymhellion y feddygfa, ai drafod mewn cyfarfod neilltuol.<br><br>c) **<u>SP - PRYDERON AM Y GEIRF GWYLLT Y NANT</u>**<br>Adroddodd SP am adroddiad oedd wedi ei wneud gan Ymddiriedolaeth y Nant ac ANHE yn ddiweddar parthed y geifr gwyllt a rhannodd bryderon am eu dyfodol.<br>Cytunodd yr aelodau wneud ymholiadau gyda AHNE am gynnwys yr adroddiad a gofyn beth fydd y camau nesaf a phwy fydd yn gweud unrhyw benderfyniad. Y clerc i weithredu. |
| **14.** | **GOHEBIAETH** |
| | **a) <u>NEWYDDLEN MAWRTH GWASANAETH GWYBODAETH I DEULUOEDD</u>**<br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau i'w gweithredu<br><br>**b) <u>CYFRIFIAD DIFFIBRILWYR MYNEDIAD CYHOEDDUS UN LLAIS CYMRU 2023</u>**<br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau i'w gweithredu<br><br>**c) <u>DIWEDDARIAD GAN BWYLLGOR GWASANAETHAU AMBIWLANS BRYS AR Y GWASANAETH ADALW A THROSGLWYDDO MEDDYGOL BRYS (GATMB)</u>**<br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau i'w gweithredu<br><br>**d) <u>PWYNTIAU GWEFRU I GERBYDAU TRYDAN</u>**<br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau i'w gweithredu<br><br>**e) <u>LLYTHYR YN DIOLCH GAN GLWB FFERMWYR IEUAINC GODRE'R EIFL</u>**<br>Derbyniwyd fel gwybodaeth |

f) **CRONFA TREFTADAETH 2033 - STRATEGAETH AR GYFER DENG MLYNEDD NESAF CRONFA TREFTADAETH Y LOTERI GENEDLAETHOL**
Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau i'w gweithredu

g) **RHAGLEN WAITH MIS MAWRTH – PRIFFYRDD DWYFOR**
Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau i'w gweithredu

h) **ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL**
Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau i'w gweithredu

i) **BWLETIN NEWYDDION UN LLAIS CYMRU**
Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau i'w gweithredu

j) **CLERC CYNGOR CYMUNED LLANENGAN – CAIS AM WYBODAETH PARTHED POLISI IAITH Y CYNGOR**
Bydd Polisi Iaith y Cyngor yn cael ei drafod fis Mai

## 15. CYLLID

a) **CYSONIAD A RHAGAMCANION 2022/23**

| | | | |
|---|---|---|---|
| + | **CYFRIF CYFREDOL MAWRTH 2022** | | £7,089.26 |
| + | **CYFRIF CADW MAWRTH 2022** | | £2,661.01 |
| - | **LLAI SIECIAU HEB YMDDANGOS YN Y BANC** | | £200.00 |
| + | **GWARGED 2022 / 2023** | | £4,435.22 |
| = | **CRONFA'R CYNGOR** | = | **£13,985.49** |

**I GYTUNO A DATGANIADAU'R BANC**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **CYFRIF CYFREDOL** | **28/02/2023** | | £12,290.74 |
| **CYFRIF CADW** | **06/02/2023** | + | £2,664.80 |
| | | = | **£14,955.54** |

**LLAI TALIADAU HEB EU CYFLWYNO YN Y BANC**

| | | | |
|---|---|---|---|
| - | | | |
| - | Clwb Ffermwyr \|Ifanc | **201270** | £200.00 |
| - | Ambiwlans Awyr Cymru | **201266** | £500.00 |
| | | = | **£700.00** |

**LLAI SIECIAU I'W CYMERADWYO**

| | | | |
|---|---|---|---|
| - | G. Thomas | **201271** | £270.05 |
| | | = | **£270.05** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **SYDD YN CYTUNO GYDA CHRONFA'R CYNGOR** | = | **£13,985.49** |
| - | **LLAI BALANS CRONFA'R DIFFIBLWR** | - | **£251.91** |
| = | **CYFANSWM CYWIR Y CYFRIFON FELLY** | = | **£13,733.58** |

| 16. | **CYFARFOD NESAF Y CYNGOR** |
|---|---|
| | 11 o Ebrill yn Nhabor, Llithfaen am 7 |